DARGANFOD HOLT

Y RHWYDWAITH EGLWYS AGORED

EGLWYS SANT CHAD

Mae'r eglwys dywodfaen coch atyniadol hon, sy'n sefyll ar lannau Afon Dyfrdwy mewn gororau sy'n hardd ond yn aml yn derfysglyd, wedi'i hamgylchynu gan hanes ac yn dyddio'n ôl i 1395.

Mae drws y gogledd yn adrodd ei hanes ei hun, gyda chloerdyllau ar gyfer barilau gynnau'n dyddio'n ôl i gyfnod y Rhyfel Cartref yn 1645, a cheir digonedd o dystiolaeth y cafwyd brwydr a ymladdwyd â mwsgedau y tu mewn i'r eglwys.

Mae'r fedyddfaen o'r 15fed ganrif yn gyfoethog o ran herodraeth, gan gynnwys Arfau Rhisiart III, ac mae nifer o gofebion hardd yn cyfoethogi ei thu mewn.

Fel eglwysi eraill sy'n agos at Afon Dyfrdwy, mae'r arfer hynafol o gludo brwyn yn atyniad mawr ym mis Awst, pan ddygir brwyn newydd o lannau'r afon mewn gorymdaith a phan addurnir y beddau â blodau.

Tra eu bod yma, mae llawer o ymwelwyr yn dilyn Llwybr Pentref Holt (mae arweinlyfrau ar gael yn yr eglwys) sy'n cynnwys nifer o nodweddion diddorol o gyfnod y Rhufeiniaid ym Mhrydain, hyd at y dyddiau presennol.



CYFLEUSTERAU:

- Gellir parcio y tu allan i gatiau'r eglwys ac yn y maes parcio gerllaw
- Toiledau, gan gynnwys anabl
- Siop Rhoddion

LLEOEDD I YMWELD Â NHW:

- Llwybr pentref Holt
- Llwybr y Rhyfel Cartref
- Castell Holt
- Neuadd Fwyd Ffres J.T. Vernon
- Marchnad Wledig Bellis
- Siopau a thafarndai lleol

Am wybodaeth am fynediad, gweler y dudalen ychwanegol yn y ffolder hwn.

CYSWLLT:
Ffôn: 01978 292015

AMSEROEDD AGOR:
Dydd Sul:
11.00am - 3.00pm

Dyddiau'r Wythnos (Ebrill i Fedi)
12.00pm - 3.00pm
neu drwy apwyntiad